# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 18 Mehefin 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch a fydd y DU yn ymuno ag Arian Sengl Ewrop. (WAQ26037)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Yn dilyn o OAQ24330, pryd y bydd yr ymchwiliadau i'r opsiynau ar gyfer ffordd liniaru ar gyfer y Drenewydd, Sir Drefaldwyn, yn dechrau a phryd y mae disgwyl iddynt ddod i ben. (WAQ26032)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Leighton Andrews (Y Rhondda);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl teithiau ymchwil i deuluoedd o fewn twristiaeth ddiwylliannol. (WAQ26033)

**Leighton Andrews (Y Rhondda);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch p'un a yw'r arian ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn dibynnu ar gyflawni targedau ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol. (WAQ26034)

**Leighton Andrews (Y Rhondda);** Pa gymorth a roddodd ei adran i gais Dinas Caerdydd i fod yn Ddinas Diwylliant a sut y cafodd diwylliant Cymoedd y De ei adlewyrchu yn y cais. (WAQ26035)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Leighton Andrews (Rhondda);** Pa gymorth y mae ei hadran wedi ei roi i brosiect y Coleg Digidol ac at ba ddiben. (WAQ26036)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i gynorthwyo pobl ifanc yn Ne Caerdydd a Phenarth. (WAQ26040)

**John Marek (Wrecsam);** A wnaiff y Gweinidog restru uwch-reolwyr ELWa, gan gynnwys pob cyfarwyddwr a phob cyfarwyddwr rhanbarthol, a rhestru eu cymwysterau priodol.

(WAQ26041)

**John Marek (Wrecsam);** A wnaiff y Gweinidog nodi ymhle y mae holl uwch-reolwyr ELWa wedi eu lleoli, gan gynnwys pob cyfarwyddwr a phob cyfarwyddwr rhanbarthol. (WAQ26042)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi ymrwymiad pendant y bydd Siambr drafod newydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei lleoli ym Mae Caerdydd. (WAQ26039)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A all y Gweinidog wneud datganiad ar safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran gweithredu a dosbarthu pasportau ceffylau. (WAQ26038)

## *Gofyn i Bwyllgor y Ty*

**Leighton Andrews (Rhondda);** Pryd y bydd yr arddangosfa yng Nglanfa'r Cynulliad yn cael ei diweddaru i adlewyrchu Etholiadau'r Cynulliad yn 2003 ac i adlewyrchu sefydlu Llywodraeth Cynulliad Cymru; a pham y mae wedi cymryd mor hir i wneud hyn. (WAQ26227)